

Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

339 - Beirniadaeth Cystadleuaeth Rhyddiaith Bl.5 a 6

Hoffwn ddiolch i'r cystadleuwyr ac i'r athrawon ymroddgar a'u hanogodd i gystadlu yn ystod ycyfnod anodd hwn. Beirnedais yr un gystadleuaeth ar gyfer yr Eisteddfod yn 2020 pan roeddmwy o gystadleuwyr a'r ymsonau'n fwy estynedig. Mwynheais ddarllen y 64 darn a ddaeth i law eleni: unwaith eto, dewiswyd ysgrifennu ymsonau'run hen ffefrynnau : Dewi Sant, Hedd Wyn, Barti Ddu, Rosa Parks, Neil Armstrong, LlywelynFawr, Branwen, Efnisien a'r Santes Dwynwen; Bill Shankly a Ryan Reynolds (cydberchennogClwb Pêl-droed Wrecsam). Yn annisgwyl braidd, cafwyd dau ymson gan Waldo Williams, ungan Harri Tudur cyn Brwydr Bosworth, dau am Suffragettes ac un gan Adolf Hitler. Ysgrifennwydsraith ymson gan Catherine o Aragon cyn priodi Harri VIII. Ac yn briodol ym mlwyddyncanmlwyddiant yr Urdd cafwyd ymson gan Syr Ifan ei hun! Tipyn o gamp ydy llunio Ymson, ondllwyddodd y rhan fwyaf.Dyma enwau'r goreuon: Tom Llewelin, Nel Arwyn, Nansi Rees,Ffion Phillips, Glain Williams,Gwerfyl Morgan, Iori Humphreys, Leusa Roberts, Lyra Reynolds, Amelia Staniskowa, Beca FônWilliams, Cai Lewis, Eos Jones ac Ethan Thomas. Diddorol ydy sylwi mai dim ond pedwar sy'nfechgyn.O'r rhelyw, nid diffyg gwreiddioldeb, adnoddau ieithyddol neu fynegiant yn aml oedd yn wan ondhyd y gwaith. Mae niferwedi methu cyfle i fireinioeu gwaith neu ymestyn y cynnwys ynfoddhaol.Mae ôl caboli ar y goreuon: eu hiaith a'u delweddu'n wreiddiol; yr hanes ar flaenau eu bysedda'u dealltwriaeth o natur y cymeriad yn aeddfed. Yn y tri darn buddugol mae'r ddrama'n llamuo'r tudalennau.

1af - Gwerfyl Morgan

2il - Leusa Roberts

3ydd - Lyra Reynolds